eiriolaeth advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

Mawrth 2018 Rhifyn 9

## *Hwyl fawr...*

Byddaf yn gadael Age Cymru ddiwedd Mawrth er mwyn derbyn swydd lawn amser gyda Headway UK, felly, dyma fydd fy rhifyn olaf o'r Cylchlythyr Eiriolaeth. Rwyf wedi mwynhau gweithio i Age Cymru yn fawr iawn dros yr 11 mlynedd a hanner diwethaf a byddaf yn colli gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl gampus.

Dymunaf y gorau i chi i gyd, a bu'n hyfryd cyd-weithio â chi.

Dymuniadau gorau,

Ffion

## *Canlyniadau ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol - Rhan 2*

Yn Rhan Gyntaf yr erthygl hon, fe wnaethom gyfeirio at y fframweithiau canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd a chynnig cyfres o ganlyniadau model i ddarparwyr a chleientiaid gwasanaethau EBA. Rydym bellach yn ymgysylltu â grŵp bychan o ddinasyddion er mwyn cael adborth bellach ar amcanion y model. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn Fframwaith drafft Comisiynu EBA ar gyfer Oedolion yng Nghymru. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, byddwn yn ymgysylltu â'r Cyhoedd ynglŷn â'r Fframwaith.

**A fyddai mesur canlyniadau EBA o les i bobl?**

Er bod ymchwil academaidd yn cefnogi trafod y canlyniadau er mwyn egluro'r hyn mae gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni, mae astudiaeth ddiweddar yn awgrymu bod eu mesur yn "tanseilio ymarfer effeithiol ac o ganlyniad, gadewir pobl mewn sefyllfa waeth - yn arbennig y rhai mwyaf dan anfantais"[1]. Y rheswm dros hyn yw "bod mesurau yn sefydlu cymelliadau sy'n sbarduno ymddygiad pobl"[2], ac yn arwain at flaenoriaethu'r hyn sy'n *hawdd i'w fesur,* yn hytrach na'r hyn sydd *wir o bwys*. Mae'n bosibl osgoi'r "canlyniadau nas bwriadwyd" yma, os defnyddir dull o fesur perfformiad sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleient yr eiriolydd. Dylid ystyried hyn o safbwynt: Comisiynu a darparu gwasanaeth.

**Mesur Canlyniadau EBA - Comisiynu**

Cyfeirir at swyddogaeth y Comisiynydd yn y *Côd Ymarfer ynglŷn â mesur perthynas perfformiad gwasanaethau cymdeithasol*[3]. Mae hyn yn galw ar awdurdodau lleol i fodloni chwe safon ansawdd sy'n cyfateb â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Y safon gyntaf yw: "Rhaid i awdurdodau lleol gydweithio â phobl... er mwyn diffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y maent yn dymuno eu bodloni".

Parhad.....

Rhaid i awdurdodau lleol gymryd amrediad o gamau gweithredu a ragnodwyd er mwyn cyflawni hyn, yn cynnwys: “G) Trefnu gwasanaeth eiriolwr annibynnol i hwyluso cynnwys unigolyn, os mai ond drwy gefnogaeth eiriolwr y gall yr unigolyn oresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan lawn yn y drefn o benderfynu, adolygu a bodloni gofyniad.”

Er mwyn mesur a yw’r safonau ansawdd yn cael eu bodloni, rhaid i awdurdodau lleol gael trefniadau ar waith er mwyn casglu data meintiol ac ansoddol, i’w galluogi nhw i gyflwyno cofnodion blynyddol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw’r *Cod Ymarfer ynglŷn â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol,* ar hyn o bryd yn nodi eitemau casglu sy’n ymwneud ag eiriolaeth. Gellir mynd i’r afael â hyn wrth ychwanegu dwy eitem ddata newydd, wedi’i eirio’n debyg i’r set ddata sy’n bodoli eisoes, h.y. “pobl yn dweud eu bod wedi derbyn gwasanaeth eirioli effeithiol pan oedd arnynt angen hynny”, a “chanran yr oedolion sy’n fodlon gyda safon y gefnogaeth a gawsant gan wasanaeth EBA, hyd yn oed os na lwyddwyd i sicrhau’r canlyniadau a ddymunwyd”. Byddai hyn yn cynnwys EBA yn y fframwaith mesur perfformiad ac yn sicrhau bod EBA’n cael ei gynnwys yn adroddiadau blynyddol yr awdurdodau lleol.

Mae datblygu comisiynu eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn fwy datblygedig na’r hyn ydyw i oedolion, ac mae fframwaith safonau cenedlaethol a chanlyniadau eisoes ar waith[4]. Mae hyn yn cysylltu mesurau a thystiolaeth i gomisiynwyr a darparwyr i gyfres o safonu dan bob un o bum datganiad canlyniad eiriolaeth.

Un ffordd o sicrhau cydraddoldeb fyddai’n syml trosglwyddo o Fframwaith safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a phobl ifanc i eirioli ar gyfer Oedolion. Byddai’n rhaid i hyn ystyried gwahaniaethau fel y “cynnig actif” yn achos eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid yw hyn yn berthnasol i eirioli i oedolion. Os yw datganiadau’r canlyniadau, y safonau cyfatebol, y mesurau a’r dystiolaeth yn cael eu hefelychu, cyn belled â phosibl, byddai hyn yn lleihau baich gwaith ychwanegol yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd a darparwyr o gasglu data. Gallai datganiadau’r pum canlyniad fod fel a ganlyn:

- mae oedolion yn gweld bod gwasanaeth eirioli o safon dda yn hawdd ei gael ac yn hygyrch.
- mae hyn y parchu preifatrwydd, ennyn hyder, yn diogelu ac yn amddiffyn llesiant oedolion.
- gwelir gwerth yn amrywiaeth oedolion, fe’u perchir, a chaiff pob math o wahaniaethu yn eu herbyn eu herio.
- mae oedolion yn cael eu grymuso a hyrwyddir eu hawliau, eu dymuniadau a’u teimladau.
- mae oedolion yn cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio, cynllunio, darparu a monitro gwasanaethau eirioli.

Hoffem glywed eich barn ar y datganiadau hyn wrth i’n gwaith fynd rhagddo.

**Mesur Canlyniadau ar gyfer EBA - Darparwyr**
Mae model drafft y canlyniadau y cyfeiriwyd atynt yn y cylchlythyr diwethaf yn amlygu’r prif feysydd y mae angen eu gwella’n gynyddol dros amser. Dylent roi gwell dealltwriaeth i ddarparwyr EBA o’r hyn a ddisgwylir ganddynt ac i alluogi awdurdodau lleol ofalu eu bod yn sicrhau’r canlyniadau priodol ar gyfer eu cleientiaid.

Byddai dynodi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol sy’n cydweddu yn sicr yn ychwanegu at faich biwrocratiaeth a gallai arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd. Yn hytrach, awgrymwn y byddai’r canlyniadau model yn fwy defnyddiol yn sail i sgyrsiau parhaus am ba mor effeithiol yw’r gwasanaeth rhwng comisiynwyr, darparwyr a chleientiaid. Gellid eu hystyried yn rhestr wirio er sicrhau bod gwasanaethau’n gwella’n barhaus, i’w defnyddio mewn cyfarfodydd monitro contractau. Gellid eu defnyddio i lywio cyfweliadau boddhad cleientiaid. Er enghraifft, ar ddiwedd proses EBA, gallai darparwyr ofyn i’w cleientiaid am ymateb ‘ie’ neu ‘na’ i ganlyniadau 1-9. Yna, gellid cyfuno ymatebion er mwyn eu trafod gyda chomisiynwyr a’u monitro dros amser.

Parhad..

Gellid defnyddio canlyniadau'r model ochr yn ochr â'r gyfres gynhwysfawr o 73 dangosydd sy'n ymdrin ag wyth maes ansawdd. Fe'i cyflwynir yn Atodiad 1 o'r Nod Ansawdd Perfformiad Eirioliaeth[5] (adolygir ar hyn o bryd). Gellid eu defnyddio hefyd i ddechrau sgyrsiau mewn cyfarfodydd tîm ac yn ystod sesiwn arolygu unigolion, er mwyn annog ymarfer myfyriol a hyrwyddo newid diwylliannol graddol mewn sefydliadau eiriolaeth.

Mae croeso i chi roi eich barn ar y syniadau hyn i fesur canlyniadau EBA - bydd pob barn, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn helpu i lywio ein gwaith ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr. Yn y cylchlythyr nesaf, byddwn yn trafod egwyddorion craidd EBA o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n darparu sail waelodol i'r gwasanaeth.

**Cyfeiriadau**


[1] http://bit.ly/outcomes2link1
[2] http://bit.ly/outcomes2link2
[3] http://bit.ly/outcomes2link3
[4] http://bit.ly/outcomes2link4
[5] http://bit.ly/outcomes2link5



**Paul Swann**
**Swyddog Datblygu Comisiynu GTAP**


## *Swyddogaeth Eiriolaeth mewn perthynas â Llesiant*

**Beth yw ystyr llesiant?**
Ystyr llesiant yw bod gan bobl yr asedau angenrheidiol i ateb yr heriau maent yn eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd. Gallai'r asedau yma gynnwys sgiliau, cefnogaeth teulu, addysg ac iechyd da. Yr heriau posibl yw iechyd gwael, bwlio neu drais yn y cartref.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi addasu'r diffiniad Dodge i ddisgrifio sut mae llesiant pobl yn dibynnu ar gadw cydbwysedd da rhwng asedau a heriau:

Pan fo pobl yn wynebu mwy o heriau nag yn meddu ar asedau, mae eu llesiant yn gwanio. Yn yr un modd, os oes gan rywun lawer o asedau ond prin yw eu heriau, efallai eu bod yn anfodlon, a gall hynny effeithio ar y cydbwysedd. Gall gwahaniaethau o ran cyfle, profiad ac iechyd gael effaith andwyol ar lesiant, ac o ganlyniad, ar anghenion gofal a chymorth

**Eiriolaeth a llesiant**
Mae cysylltiadau aml-ffactor i lesiant a golyga pethau gwahanol i bobl wahanol, ar adegau gwahanol yn eu bywydau.  Mae rhai pobl yn medru dweud am newidiadau yng nghydbwysedd eu hasedau a'u heriau yn well, a'r canlyniadau o ran eu llesiant nag eraill. Swyddogaeth eirioli yw helpu pobl y mae'n anodd sicrhau y clywir eu lleisiau - sydd am gyfleu eu dealltwriaeth nhw o'u llesiant eu hunain, sy'n esblygu a newid, a'u barn am sut gallant fyw'r bywyd gorau gydol eu hoes, fel y gall gwasanaethau ymateb yn hyblyg i hyn.




**Eiriolaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Nod 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw peri i'r sefydliadau cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl fwyfwy am yr hirdymor, am weithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, am atal problemau, a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig a chynaliadwy.

Roedd DLlCD wedi sefydlu 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o bob cwr o Gymru. Rhaid i bob BGC wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal, drwy weithio i gyrraedd saith nod llesiant.

Parhad.....

Mae gan wasanaethau eirioli ran i'w chwarae yn sicrhau y cyrhaeddir pob un o'r nodau hyn, yn arbennig mewn perthynas â:

Nod 4:  Cymru sy'n fwy cyfartal.  Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)

Nod 5:  Cymru o gymunedau cydlynus.  Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Gwneud Cynnydd tuag at Nodau Llesiant**
Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol i helpu i fesur cynnydd tuag at gyrraedd y Nodau Llesiant.

Mae Deddf LlCD yn galluogi Gweinidogion i adolygu a gwella'r dangosyddion cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol a pherthnasol. Rhaid i Weinidogion gyhoeddi adroddiad cynnydd bob blwyddyn, yn cyflwyno'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, ar gychwyn pob blwyddyn ariannol.

Rhaid i sefydliadau cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n mynd i'r afael â gwneud y gorau o'u cyfraniad at gyrraedd pob nod llesiant a chymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion. Rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y cynnydd a wnaed ganddynt i gyflawni eu hamcanion.

Mae gwasanaeth eirioli yn diogelu a chysylltu pobl sydd wedi'u hymyleiddio mewn cymdeithas, yn eu galluogi nhw i ymgysylltu â gwasanaethau a chymdeithas ac i fyw bywydau mwy bodlon. Byddai diffyg gwasanaeth eirioli ar gyfer y bobl sydd wedi'u hymylu fwyaf ond yn agor y bwlch anghydraddoldebau ac yn mynd yn groes i fwriad nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Mae gofalu bod gwasanaethau eirioli ar gael i'r bobl sydd eu hangen yn hanfodol i gyrraedd nodau llesiant.

Dylai awdurdodau lleol sy'n comisiynu gwasanaethau eirioli effeithiol allu dangos sut mae eirioli'n helpu i gyrraedd Nodau Llesiant (yn arbennig Nodau 4 a 5) wrth gasglu data drwy'r drefn monitro contractau.

**Asesiadau Llesiant**
Tasg gyntaf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd cynnal asesiadau llesiant lleol. Mae'r asesiadau'n darlunio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu cymunedau - yn awr a'r wedd o bosibl fydd arnynt yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach wedi cynhyrchu asesiadau ac mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi adborth unigol ar y drafftiau i bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

Nid yw Asesiadau Llesiant wedi tueddu i ganolbwyntio cymaint ag y gallent ar eiriolaeth fel cyfrannwr at lesiant. Mae'n bosibl taw'r ffaith bod Asesiadau o'r Boblogaeth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi ymdrin â pheth o'r maes hwn sydd i'w gyfrif am hyn. Mae asesiadau poblogaethau rhanbarthol wedi cael eu crynhoi yn adroddiad asesiadau poblogaethau cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru.  Fodd bynnag, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n rhaid i sefydliadau cyhoeddus ystyried goblygiadau eu gwaith i genedlaethau'r dyfodol.  Golyga hyn, pan fo Awdurdodau Lleol yn comisiynu gwasanaethau eirioli o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) rŵan, rhaid iddynt ystyried hefyd y goblygiadau i genedlaethau'r dyfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, mae'n bwysig bod Awdurdodau Lleol yn meddwl yn holistaidd am eu dyletswyddau eirioli, mewn perthynas â'r ddwy Ddeddf.

**Valerie Billingham**
**Swyddog Datblygu ar gyfer comisiynu Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (Gogledd Cymru)**

## *Cefnogi Comisiynu ar Arfer da Eiriolaeth: Rhestr Adnoddau*

Rydym yn falch o gyflwyno rhestr adnoddau defnyddiol y gofynnwyd amdani gan randdeiliaid. Mae'r rhestr hon yn dwyn ynghyd deddfwriaeth, gwaith ymchwil, arfer da, gwybodaeth a dolenni gwefannau defnyddiol i gefnogi comisiynwyr a darparwyr ledled Cymru.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi a byddwn yn parhau i ddiweddaru'r rhestr trwy gydol oes y rhaglen.

Ychwanegwyd adnodd newydd at y rhestr, wedi'i amlygu mewn ysgrifen goch.

Age Cymru | Rhestr Adnoddau Cefnogi Comisiynu ar Arfer Da Eiriolaeth

## *Ymgysylltu a Chomisiynu*

Mae cyd-gynhyrchu yn egwyddor bwysig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Er mwyn cyd-gynhyrchu yn effeithiol, rhaid sicrhau gwaith ymgysylltu effeithiol gyda'r holl randdeiliaid, ar sail gyfartal.

Mae erthyglau ar gyd-gynhyrchu eisoes wedi eu cyhoeddi yn y cylchlythyr hwn. Mae'r erthygl hon yn cyfeirio at ddau ddull ymgysylltu a digwyddiadau sydd wedi'u hwyluso gan Raglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) er mwyn rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain; bydd angen i bob Awdurdod Lleol ystyried ei ddull ymgysylltu yn unigol.

Dull o gyd-gynhyrchu yw defnyddio egwyddorion Ymchwiliad Gwerthfawrogol. Mae'r dull hwn yn galluogi manteisio ar gryfderau ac yn annog “yr hyn sy'n gweithio'n dda.” Yn y cyd-destun hwn, mae'n ystyried sut olwg sydd ar wasanaeth o safon. Mae'r ddwy enghraifft isod yn dilyn yr egwyddor hon.

Un o'r heriau mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg gyda'r rhaglen ar gyd-gynhyrchu yw, sut i ennyn diddordeb defnyddwyr gwasanaethau ar bwnc eiriolaeth, pan fônt angen cefnogaeth eirioli o bosibl i ymgysylltu â'r drefn o gynllunio gwasanaeth eirioli. Efallai y bydd hyn yn rhoi defnyddwyr gwasanaethau yn y sefyllfa anodd o ddisgwyl iddynt roi sylwadau (negyddol o bosibl) ar y gwasanaeth y maent yn ei ddefnyddio, yng nghwmni eiriolwr sy'n eu cefnogi fel arfer.   Ateb sy'n cael ei gynnig yn aml yw cael cymorth sefydliadau eiriolaeth y tu allan i'r ardal ddaearyddol lle mae angen cyd-gynhyrchu gwasanaethau. Gall hyn fod yn broblem resymegol oherwydd argaeledd gwasanaethau eraill, y pellter teithio ayb.

Fodd bynnag, dylai egwyddorion eiriolaeth annibynnol dda, gan gynnwys annibyniaeth, dull sy'n rhoi lle canolog i'r unigolyn a grymuster, ganiatáu i ddarparwyr ym maes buddiant, weithio'n effeithiol gyda chomisiynwyr a dinasyddion i ymgysylltu ar gynllunio gwasanaethau. Cyfrifoldeb y sawl sy'n hwyluso'r gwaith ymgysylltu yw caniatáu hyn. Dylai deall yr egwyddorion hyn yn y Siarter Eiriolaeth helpu i liniaru'r mater a amlygwyd uchod.

**Enghraifft A:**
Yn yr enghraifft hon, datblygodd Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd, mewn partneriaeth ag Awdurdod Lleol, grŵp llywio eiriolaeth, gyfres o astudiaethau achos (ceir enghraifft isod) a chyfres o gwestiynau i alluogi amrywiaeth eang o randdeiliaid i feddwl yn gadarnhaol ac i ddadbersonoli pethau.

**Astudiaeth achos enghreifftiol:**
Mae E yn byw mewn cartref preswyl ers nifer o fisoedd. Mae'r adolygiad diweddar ar ei gofal wedi amlygu bod ei hanghenion wedi newid, felly mae angen ailasesiad arni. Mae unrhyw fath o gyfarfod yn ormod iddi, ac oherwydd eich cyflwr meddygol, mae hi'n dod yn fwyfwy drwgdybus o staff y cartref gofal a'r cymorth a gynigiant.

Ystyriwyd pob astudiaeth achos yng ngoleuni'r prif gwestiynau canlynol:

Parhad.....

1. Beth fyddai anghenion mynediad y dinasyddion a ddisgrifiwyd? Beth fyddai'r ffordd orau iddyntgyrchu cymorth eiriolaeth? (Atgyfeiriad i gyfarfod cychwynnol)
2. Pa brofiad eiriolaeth fyddai'n dda i'r unigolyn hwnnw? Pam byddai'r ffactorau hyn yn cyfrannu at brofiad eiriolaeth dda? Beth fyddai angen i'r darparwr ganolbwyntio arno er mwyn sicrhau y byddai profiad yr eiriolwr wedi bodloni'r gofynion hynny?
3. Beth fyddai angen i'r dinesydd wybod ynghylch y gwasanaeth eiriolaeth a ddarperir? A fyddai angen i'r atgyfeirwyr wybod am y gwasanaeth eiriolaeth a ddarperir?
4. Beth fyddai mesur llwyddiant i'r unigolyn dan sylw? Ystyriwch Llais, Dewis, Rheolaeth.

Bwriad y cwestiynau a'r astudiaethau achos yma oedd rhoi cyfle i fynychwyr (yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr ayb.) y gweithdy, i ystyried yr anghenion o sawl safbwynt gwahanol; safbwynt y comisiynydd, y defnyddiwr gwasanaeth, y darparwr, a'r atyfeiriwr ayb. Rhoddwyd cymorth priodol i'r bobl yr oedd arnynt angen cymorth i fynd i'r gweithdy.

Defnyddiwyd y dull astudiaeth achos er mwyn canolbwyntio gwaith y grŵp ac i roi cyfle i fynegi sawl safbwynt wrth greu'r un sefyllfaoedd. Rhoddwyd cyfle i bobl rannu eu profiadau a'u gofynion eu hunain o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Cafwyd adborth diddorol wrth ddefnyddio'r dull hwn. Canfuwyd fod angen llwybrau atgyfeirio cliriach a chodi ymwybyddiaeth ymysg yr holl weithiwr proffesiynol sydd â rhan ym mhob agwedd ar ddarparu gofal cymdeithasol, er mwyn iddynt allu deall eiriolaeth. Roedd hyn yn rhoi cyfle i gomisiynwyr ddeall anghenion posibl a mecanweithiau gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn well. Un anhawster a welwyd gyda'r dull hwn oedd, wrth ganolbwyntio ar Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn unig, taw prin yw dealltwriaeth pobl o anghenion ehangach y math yma o gymorth, drwy'r mathau eraill o eiriolaeth.

**Enghraifft B:**
Mewn gweithdy arall, dymuniad grŵp llywio'r rhanbarth oedd ystyried eiriolaeth mewn cyd-destun ehangach, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfrifoldebau'r EBA ar gyfer Awdurdod Lleol o dan y Ddeddf yn unig.

Holwyd y prif gwestiynau a ganlyn i'r bobl ddaeth i'r sesiwn hon:

- beth sy'n gweithio'n dda, mwy o beth sydd ei angen arnom?
- beth sydd ddim yn gweithio cystal? Beth sydd angen ei leihau neu ei ddiddymu?
- beth sydd ar goll? Beth yw'r bylchau?

O dan y penawdau bras hyn, anogwyd grwpiau i feddwl am ryw 5 cwestiwn pellach, er mwyn gwella eu hadborth:

- o safbwynt system eiriolaeth gyflawn (atgyfeiriadau, atgyfeirio at wasanaethau eraill ar ôl eiriolaeth, ayb?)
- o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth unigol/grŵp cleient
- mapio'r hyn sydd ar waith, y system gyfan, pob math o eiriolaeth a chymorth
- beth yw'r risg /cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddynodwyd
- beth yw'r risg os yw'r gwasanaeth yn absennol?

Cafodd yr ymagwedd gyffredinol hon ei harddel er mwyn ceisio rhoi syniad cliriach i bob rhanddeiliad o'r darlun eiriolaeth lawn mewn rhanbarth, fel y gellid ystyried pob angen. Cafwyd adborth defnyddiol o'r ymagwedd hon, yn cynnwys nodi'r angen am amrywiaeth eang o wahanol fathau o wasanaethau eiriolaeth, am drefniant cyllido tryloyw gyda'r Awdurdod Lleol, yn mynegi'n glir pwy sy'n gyfrifol am beth – gyda golwg ar eiriolaeth. Dywedodd y rhai oedd yn bresennol fod y fformat wedi rhoi cyfle i'r grwpiau ddewis sut i ymgysylltu gyda'r testun, felly cafwyd amrediad adborth ehangach.

**Casgliad:**
Ni cheir un dull unffurf i ymgysylltu yn y cylch comisiynu , ond mae'r bobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rhanddeiliaid wedi disgrifio'r broses fel un defnyddiol a dadlennol. Mae swyddogion GTAP yma i roi cymorth ar hyn ac ar elfennau eraill o'r drefn gomisiynu. Maent yn fodlon archwilio dulliau unigoledig i geisio sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

**Huw Davies**
**Swyddog Datblygu ar gyfer Comisiynu GTAP**

## *Risg Cadarnhaol a Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd*

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod dan bwysau i asesu a rheoli 'risgiau'. Eto i gyd, mae asesiad risg o bryd i'w gilydd yn gallu atal pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol rhag cyflawni'r hyn maent yn ei ddymuno, neu fyw lle maent yn dymuno byw.

Nod 'cymryd risg cadarnhaol' yw ceisio:

- pwyso a mesur y niweidiau posibl **a manteision pob dewis** pan wneir penderfyniadau o'r fath (gan gynnwys y dewis o wneud dim);
- penderfynwch **beth sydd bwysicaf** i'r unigolyn a'u cefnogwyr;
- ystyriwch y risgiau a'r buddiannau **cymdeithasol, emosiynol a seicolegol** (yn ogystal â'r corfforol);
- hyrwyddo **gwneud penderfyniadau ar y cyd**, lle mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu cefnogwyr, a gweithwyr proffesiynol amrywiol yn cydweithio i ganfod y ffordd orau a mwyaf diogel o wireddu'r canlyniadau sydd o bwys i'r unigolyn dan sylw, gan ddefnyddio'r **holl** adnoddau sydd ar gael.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) wedi cynhyrchu strategaeth 5-mlynedd i wella ***Gofal a Chymorth yn y Cartref yng Nghymru.*** Y flaenoriaeth yw cefnogi newid o ran diwylliant ac ymarfer, sicrhau dull cytunedig i reoli risg, a meithrin diwylliant o wneud penderfyniadau ar y cyd, ym mhob maes gofal cymdeithasol.

Mae GCC wedi comisiynu ymgynghoriaeth ymchwil gymdeithasol annibynnol Imogen Blood & Associates (www.imogenblood.co.uk) i'w helpu i ddeall y dystiolaeth a'r ymarfer sy'n bodoli eisoes yn y maes hwn, ac i fynd i'r afael â'r ffordd orau y gall GCC roi cymorth i'r sector er mwyn gwireddu'r newid hwn. Yna, adroddir ar y prosiect erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

**Sut rydym yn bwriadu gwneud hyn?**

Rydym yn awyddus iawn clywed am brofiadau'r bobl sy'n comisiynu, cyflenwi ac yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ochr yn ochr â maes gofal cymdeithasol. Rydym eisiau deall beth mae 'cymryd risg gadarnhaol' yn ei wneud, neu'n ei olygu i chi o bosibl a beth sy'n cefnogi neu'n rhwystro'r dull gweithredu hwn, ar hyn o bryd.

Gobeithiwn gynnal tri grŵp ffocws mewn gwahanol rannau o Gymru, a chynnal rhai cyfweliadau dros y ffôn gydag unigolion, os yw hyn yn fwy cyfleus iddynt. Cynhelir y rhain ddiwedd mis Ionawr/ dechrau Chwefror, o gofio'n hamserlen.

Ein bwriad yw strwythuro trafodaethau'r grwpiau ffocws i adlewyrchu un neu fwy o sefyllfaoedd dychmygol ond realistig, fel bodd modd i grŵp cymysg o bobl drafod y materion hyn 'un cam ar wahân' o'u hachos(ion) personol nhw. Gobeithiwn recordio lleisiau'r trafodaethau hyn, fel y gallwn eu dadansoddi'n fanwl gywir, ond byddwn yn sicrhau nad oes modd adnabod unigolion yn ein hadroddiad. Mae un aelod o'n tîm yn siarad Cymraeg a gallwch gynnal cyfweliadau unigol neu mewn grŵp yn Gymraeg, yn ogystal â Saesneg.

Os gallai fod gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn grŵp neu drafodaeth unigol ar y pwnc yma, anfonwch e-bost at: imogen@imogenblood.co.uk os gwelwch yn dda.

Os hoffech ddysgu mwy am sut mae'r prosiect hwn yn gweddu i waith ehangach GCC, cysylltwch â Jeff.Brattan-Wilson@SocialCare.Wales

## *Lansio Cynllun Ad-dalu Pŵer Atwrnai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder*

Ar 1 Chwefror, lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei chynllun ad-dalu pŵer atwrnai.

Am ragor o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen isod, os gwelwch yn dda

www.claim-power-of-attorney-refund.service.gov.uk

## *Arolygiaeth Gofal Cymru*

Ar Ddydd Llun, 15 Ionawr 2018, newidiodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei henw i **Arolygiaeth Gofal Cymru** (AGC).

Mae'r symleiddio hwn yn dangos wyneb modern yr Arolygiaeth yng Nghymru a thrafodwyd hyn gyda staff a rhanddeiliaid.

Hysbysodd AGGCC bryd hynny ynghylch y newid enw ar eu gwefan yn Rhagfyr 2017 a byddant yn cyfathrebu â staff, rhanddeiliaid, darparwyr gofal a'r cyhoedd drwy gydol mis Ionawr i gyhoeddi'r newid.

Os oes gan ddarparwyr neu bartneriaid gofal waith papur neu ddogfennaeth gyda'r llythrennau AGGCC wedi'u hysgrifennu arni, bydd yn ddilys o hyd, ond bydd AGC yn diweddaru eu ffurflenni a'u canllawiau i gynnwys yr enw newydd, yn ystod yr wythnosau i ddod.

**Manylion Cyswllt**

Bydd y brif linell ffôn (0300 7900 126) yn aros yr un fath ond bydd nifer o rifau cyswllt eraill yn newid.

Os gwelwch yn dda, sylwch y bydd cyfeiriad gwefan AGGCC a chyfeiriadau e-bost AGGCC yn parhau i weithio. Byddant yn cyfeirio defnyddwyr yn awtomatig i'r cyfeiriadau newydd. Ni effeithir ar gyfeiriadau e-bost staff unigol.

Mae manylion newydd AGC fel a ganlyn:
Cyfeiriad y wefan www.careinspectorate.wales / www.arolygiaethgofal.cymru

Cyfeiriadau e-bost cyhoeddus
ciw@gov.wales / agc@llyw.cymru

Yr enw Trydar Saesneg newydd fydd **@care_wales**. Caiff unrhyw un sydd eisoes yn dilyn @CSSIW eu cyfeirio'n awtomatig i'r enw trydar newydd pan ddiweddarir yr enw. Nid yw'r enw trydar Cymraeg @arolygu_gofal wedi newid.

YouTube – Chwiliwch am 'Arolygiaeth Gofal Cymru'

Facebook – mae AGC wedi cyhoeddi dwy dudalen Facebook newydd, un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Y rhain yw www.facebook.com/careinspectoratewales a www.facebook.com/arolygugofal. 'Hoffwch' a 'rhannwch' y tudalennau!

**Cwestiynau**?

Os oes gennych gwestiynau, mae croeso i chi anfon e-bost i cssiwcomms@gov.wales.

## *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Gwasanaeth Cynghori Cefnogaeth Cynghorydd dros y Ffôn*

Gwelwch y daflen wybodaeth isod yn hyrwyddo gwasanaeth cynghori dros y ffôn ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer gweithwyr achos allanol o'r sector cynghori, undebau llafur a chynlluniau ombwdsmon.

Taflen Cefnogaeth Cynghorydd

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

**Pecyn cymorth anatomi cydnerthedd**
Lansiwyd pecyn cymorth Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar bobl hŷn a chydnerthedd, gan ddefnyddiol lleisiau pobl hŷn yng Nghymru i wella'r ffordd yr ydym yn comisiynu a chyflenwi gwasanaethau. Er mwyn gweld y pecyn cymorth, cliciwch ar y ddolen isod:

Pecyn Cymorth anatomi cydnerthedd

**Coflyfr yr Ombwdsmon**
Mae rhifyn diweddaraf Coflyfr yr Ombwdsmon bellach ar gael, cliciwch ar y dolenni isod:

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys crynodebau o adroddiadau'r Ombwdsmon rhwng Hydref a Rhagfyr 2017.

## *Gwefannau Defnyddiol*

**Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru**
Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r Rhaglen Eiriolaeth edau Euraidd a Chylchlythyrau Eiriolaeth.

Gwefan Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd

**Dewis Cymru**
Dewis Cymru yw'r lle am wybodaeth am lesiant yng Nghymru. Mae gan Dewis Cymru wybodaeth a all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, am sefydliadau lleol a gwasanaethu a all helpu!

https://www.dewis.wales/

**Adran newydd ar y we'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SGCeRh) - Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

Darllenwch y farn a'r canllawiau diweddaraf ar Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn yr adran we newydd. Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth wedi dwyn eu hadnoddau a'u cyrsiau hyfforddi ar Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid at ei gilydd mewn un man hygyrch.

Adnoddau DoLS





## *Llinell Gyngor rhad ac am ddim Age Cymru*

Gall llinell gymorth Age Cymru roi cyngor rhad ac am ddim i'ch etholwyr ar amrywiaeth o bynciau.

Mae'n bosibl eu bod nhw am gael cyngor ar faint y dylent fod yn ei dalu am ofal am un o'u hanwyliaid? Neu am wybod a ydynt yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn ac eisiau cymorth i'w hawlio?

Gall Age Cymru helpu gyda'r holl faterion hyn, a mwy – ffoniwch ni heddiw ar: **08000 223 444**

**Cysylltwch â ni.**

- **Er mwyn tanysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth y carech ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bost** ffion.jones@agecymru.org.uk

**Rhif ffôn Rhaglen yr Edau Euraid 01352 706228**

**Ceidw'r golygydd yr hawl i newid yr erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw'r safbwyntiau yn y Cylchlythyr hwn o reidrwydd yn rhai Age Cymru.**

**Derbynnir hysbysebion ac ychwanegion gyda phob ewyllys da, ond felly nid yw'r cynnyrch neu'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn cael eu cymeradwyo neu eu hargymell gan Age Cymru.**

**Age Cymru,**
**Tŷ John Pathy,**
**13/14 Neptune Court,**
**Vanguard Way,**
**Cardiff, CF24 5PJ**

**t: 029 2043 1555**
**e: enquiries@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

Registered charity number: 1128436
Registered company number: 6837284

© Age Cymru 2017